



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Cynllun Gwella'r Gyllideb

llwy.cymru

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Cyflwyniad | 1 |
| Sut mae'r cyfan yn gweithio gyda'i gilydd? | 3 |
| Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod 2020 | 4 |
| Penderfyniadau Gwario | |
| Gwreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn penderfyniadau gwario | 6 |
| Yr Agenda Atal | 6 |
| Ymateb i newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth | 7 |
| Cynllunio ariannol tymor hirach | 7 |
| Tryloywder Data Cyllidebol | 8 |
| Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd ac Asesu'r Effaith | |
| Dadansoddiadau Ariannol | 8 |
| Asesu Effaith penderfyniadau ynghylch y Gyllideb | 9 |
| Dadansoddiadau Economaidd | 10 |
| Cynllunio Seilwaith | 11 |
| Cyllidebau Atodol | 11 |
| Trethi Cymreig | 12 |
| Ymgysylltu ynghylch Trethi a'r Gyllideb | 13 |
| Allwedd | 15 |

Cyflwyniad

Fel rhan o Gyllideb 2020-21, roeddem wedi cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb am y tro cyntaf. Roedd y cynllun yn amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys dyheadau tymor byr a thymor canolig dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn gwella proses y gyllideb drwy ddefnyddio Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi'r Cynllun bob blwyddyn, er mwyn cydnabod natur barhaus sbarduno a chynnal newid tymor hirach. Ein nod cyffredinol yw y bydd y gwelliannau arfaethedig hyn i broses y gyllideb yn arwain at fwy o dryloywder yn nogfennau'r Gyllideb flynyddol i ddangos sut mae'r Ddeddf wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y gyllideb.

Mae'r [Cynllun cyntaf](#) yn amlinellu'r camau rydym eisoes wedi'u cymryd ar ein taith i wreiddio'r Ddeddf yn y ffordd rydym yn delio â'r Gyllideb. Mae'r Cynllun hwn sydd wedi'i ddiweddarau yn dangos sut rydym wedi adeiladu, neu'n bwriadu adeiladu, ar y gwaith hwn yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys y mesurau rydym wedi'u cymryd yn ystod cylch y gyllideb bresennol.

Mae'r Cynllun wrth gwrs yn cael ei gyhoeddi yn ystod pandemig. Mae ymateb i'r argyfwng a lliniaru ei effeithiau wedi bod yn flaenllaw yn agenda'r Llywodraeth eleni. Rydym wedi gweld y Llywodraeth yn buddsoddi ar lefelau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen er mwyn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus a'r economi drwy'r argyfwng. Yn anochel, gyda'r ffocws ar yr argyfwng, nid ydym wedi gallu bwrw ymlaen â'r holl fesurau a nodwyd gennym yng Nghynllun y llynedd, gan gynnwys sefydlu Grŵp Trosolwg Gwella'r Gyllideb. Rydym wedi dechrau sgwrs gyda'n rhanddeiliaid am ffurf a rôl y Grŵp yn y dyfodol a byddwn yn parhau â'r trafodaethau hynny yn y Flwyddyn Newydd.

Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol, rydym wedi symud ymlaen gyda nifer o'r meysydd a nodir yn y Cynllun. Mae tudalennau 4 a 5 y Cynllun hwn yn cynnwys crynodeb manylach o'n cynnydd.

Ac ystyried natur drawsbynciol proses y Gyllideb flynyddol, mae'r Cynllun yn dal i adlewyrchu ein dyheadau ar gyfer gwahanol agweddau ar y Gyllideb. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi isod:

1. Penderfyniadau Gwario – Gwella'r prosesau a ddefnyddir ar draws Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i nodi ac i ddatblygu cynigion gwario, gwella'r gallu i flaenoriaethu penderfyniadau sy'n cyd-fynd yn gliriach â'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio; ac archwilio cyfleoedd i gynllunio'n well ar gyfer y tymor hirach.

- **Gwreiddio'r Ddeddf mewn penderfyniadau cyllidebol** – Archwilio sut gallwn ddangos yn gliriach sut mae'r Ddeddf yn siapio blaenoriaethau gwario lefel uchel, a'n cynlluniau tymor canolig i gysoni'r broses Cyllideb flynyddol a gweithgareddau cyllidebu parhaus ar draws y sefydliad yn ehangach i fynd â'r gwelliannau hyn rhagddynt. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r meysydd gwaith eraill sy'n cynnwys y camau gweithredu manylach y byddwn yn eu cymryd i wreiddio'r Ddeddf.
- **Cynllunio ariannol tymor hirach** – Gweld sut gallwn wreiddio cynllunio ariannol tymor hirach yn y gwaith o baratoi'r gyllideb flynyddol gan ddefnyddio ffynonellau megis Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a dulliau gweithredu fel modelu senarios.
- **Yr agenda atal** – Dangos sut rydym yn datblygu'r agenda atal, gan adeiladu ar y diffiniad gwaith y cytunwyd arno yn 2018. Byddwn yn canolbwyntio ar sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi newid mewn gweithgareddau ataliol.
- **Ymateb i newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth** – Adolygu sut mae angen i ni newid ein ffordd o ymdrin â'r gyllideb er mwyn ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys lleihau effeithiau carbon a chynyddu bioamrywiaeth ar sail tystiolaeth gyfredol a thystiolaeth sy'n dod i'r fei.
- **Tryloywder data Cyllidebol** – Dangos ein cynlluniau i gyhoeddi data ariannol mewn fformatau sy'n fwy agored a hygyrch er mwyn cefnogi pobl i ddefnyddio'r data.

2. Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd ac Asesu'r Effaith:

- **Dadansoddiadau Ariannol** – Datblygu'r gallu i ddeall effaith ddisbarthiadol penderfyniadau ynghylch gwariant cyhoeddus a threthiant.
- **Dadansoddiadau Economaidd** – Parhau i ddatblygu adroddiad y Prif Economegydd i adlewyrchu'r nodau llesiant yn well, a datblygu canllawiau Gwerth am Arian, gan gynnwys asesiad o'r Llyfr Gwyrdd a ddiwygiwyd yn ddiweddar i benderfynu a oes angen Atodiad Cymreig i sicrhau bod goblygiadau'r Ddeddf yn cael eu hadlewyrchu'n llawn wrth roi'r canllawiau ar waith.
- **Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol i wella canlyniadau** – Gwella ein prosesau i benderfynu ar gynigion gwariant er mwyn gwella'r cysylltiad rhwng gwariant a chanlyniadau. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ailedrych ar bwrpas Asesiad Effaith Integredig Strategol y gyllideb a'i egluro, ynghyd â'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail iddo ac archwilio a datblygu dull o gyllidebu ar sail rhyw.

3. Cynllunio Seilwaith – Gwella sut rydym yn ystyried ac yn cysoni blaenoriaethau a phenderfyniadau strategol ar fuddsoddiad cyfalaf, gan nodi natur hirdymor gwariant cyfalaf a'r angen am fwy o integreiddio. Byddwn yn defnyddio'r cyfle a gyflwynir gan olynydd Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith presennol Cymru i nodi'r blaenoriaethau hyn.


4. Cyllidebau Atodol – Parhau i ddatblygu cyfrif mwy cynhwysfawr ar ddyraniadau sylweddol o gronfeydd wrth gefn, gan ddysgu o'r dull gweithredu ar gyfer cyllidebau atodol 2020-21. Byddwn yn ystyried y datblygiadau mewn meysydd eraill o broses cynllunio'r gyllideb ac yn asesu os yw'r rhain yn briodol ar gyfer y broses cyllideb atodol a sut.

5. Trethi Cymreig – Dangos sut rydym yn cyflawni o dan ein fframwaith polisi trethi sy'n cyd-fynd â'n pum egwyddor polisi trethi. Bydd y maes hwn yn edrych ar sut gallwn ni godi referniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sydd mor deg â phosibl. Dylai treth helpu i gyflawni amcanion ariannol a pholisi ehangach. Byddwn yn sicrhau bod polisiau treth yn syml, yn glir, yn flaengar ac yn sefydlog, gydag eglurder ac effeithlonrwydd deddfwriaethol a gweinyddol.

6. Ymgysylltu ynghylch y Gyllideb a Threthi – Datblygu dull strategol o ymgysylltu ynghylch y Gyllideb, o godi ymwybyddiaeth o wariant cyhoeddus a threthiant; ymgysylltu'n ysturlon â rhanddeiliaid allweddol ac unigolion y mae penderfyniadau ynghylch y gyllideb yn effeithio arnynt i drafod ac i ystyried eu safbwyntiau; a chydweithio â rhanddeiliaid i siapio gwelliannau i gynigion gwariant a threthiant.

Mae'r diagram cysyniadol ar y dudalen nesaf yn dangos y berthynas rhwng agweddau gwahanol ar y Gyllideb flynyddol sydd yn y Cynllun hwn, ac sy'n cael eu crynhoi uchod.

Sut mae'r cyfan yn gweithio gyda'i gilydd?



Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod 2020

Ceir crynodeb isod o gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod y cyfnod hwn. Er gwaethaf y cyd-destun heriol yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gallu gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd. Lle nad ydym wedi gallu dod yn ein blaenau mor gyflym ag yr oeddem wedi'i ragweld oherwydd yr argyfwng, mae'r dyheadau hyn yn dal i gael eu hadlewyrchu yn ein Cynllun ar gyfer y dyfodol, er bod yr amserlenni wedi'u haddasu.

Penderfyniadau Gwario

- Roeddem wedi **cryfhau'r broses fewnol o wneud penderfyniadau** i adolygu'r lefel uchel o geisiadau o gronfeydd canolog i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu hintegreiddio er mwyn cynyddu'r manteision ar draws llywodraeth a'r nodau llesiant, a cheisio lliniaru yn erbyn effeithiau tymor hirach negyddol. Mae'r camau rydym wedi eu cymryd wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar atal niwed i'r mwyaf difreintiedig ac atal effeithiau negyddol ehangach ar bobl Cymru ac ar yr economi ehangach. Cafodd y penderfyniadau hyn eu harwain gan bum ffordd o weithio'r Ddeddf, gan gydweithio â phartneriaid i ymateb i'r effeithiau.
- **Mae'r paratodau ar gyfer Cyllideb ddrafft 2021-22 wedi cael eu fframio gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i ddiogelu iechyd y cyhoedd, gwasanaethau cyhoeddus a swyddi, adeiladu dyfodol sy'n fwy gwyrdd a newid ar gyfer Cymru decach.** Mae'r [dull a gyhoeddwyd](#) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Ail-greu yn sgil y pandemig hefyd wedi dylanwadu ar y blaenoriaethau hyn. Mae'r dull hwn wedi cael ei **siapio drwy ofyn am ragor o sylwadau gan y cyhoedd** drwy flwch post pwrpasol a drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Roedd hyn wedi arwain at gyflwyno dros 2,000 o sylwadau.
- Rydym wedi bwrw ymlaen â'r gwaith cychwynnol i ganfod awdurdodau lleol sydd â diddordeb mewn **treialu model Bond Effaith Gymdeithasol** – model buddsoddi sy'n seiliedig ar ganlyniadau i fynd i'r afael â materion cymdeithasol – ac mae opsiynau caffael yn cael eu hystyried.

Cyllidebau Atodol

- Wrth gyhoeddi'r Gyllideb Atodol Gyntaf, roeddem wedi darparu naratif cynhwysfawr ynghylch y dyraniadau a'r ailflaenoriaethu sylweddol yn y cyllidebau presennol ac effaith hynny, er mwyn gwneud pethau'n fwy tryloyw o ystyried graddfa ddigynsail y newidiadau i gyllideb Cymru.
- Roeddem hefyd wedi cymryd cam anarferol sef cyhoeddi **Ail Gyllideb Atodol 'ychwanegol'** ar 20 Hydref, rai misoedd yn gynharach na'r amserlen arferol sef dechrau 2021. Roedd hyn yn cydnabod pwysigrwydd bod yn dryloyw ynghylch goblygiadau ariannol yr argyfwng. Roedd y naill ddatblygiad a'r llall yn mynd y tu hwnt i'r dyheadau a oedd yn cael eu rhagweld yn wreiddiol yn y Cynllun hwn.

Cynllunio Seilwaith

- Rydym wedi parhau i ddatblygu olynedd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae hyn wedi canolbwyntio ar lunio'r strategaeth sy'n ymwneud â'r pedair egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – er mwyn gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Mae Datganiad Ysgrifenedig wedi cael ei gyhoeddi ynghylch sut bydd olynedd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn cael ei ddatblygu, fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2021-22.

Trethi Cymreig


- Rydym wedi parhau i fwrw ymlaen â'n hymrwymiaid a manteisio ar gyfleoedd i **ddefnyddio ein liferi trethu presennol er budd trethdalwyr Cymru** a chyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Roeddem wedi cyflwyno **gostyngiad dros dro yng nghyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir preswyl** ar 27 Gorffennaf, gan godi'r trothwy cychwynnol o £180,000 i £250,000. Amcangyfrifir bod hyn yn golygu nad oedd 80 y cant o'r rheini a oedd yn prynu tai yng Nghymru yn talu dim treth ar brynu eu cartrefi, er mwyn cefnogi adferiad y farchnad dai.
- Roeddem wedi **cyhoeddi'r Cynllun Gwaith Polisi Trethi blynyddol** ar 29 Medi a oedd yn berthnasol i'r cyfnod hyd at etholiadau Senedd Cymru ym mis Mai 2021. Bydd adroddiad ar y cynnydd yn cael ei gyhoeddi yn nes at yr adeg honno.
- Rydym hefyd wedi **blaenoriaethu cynigion ar gyfer treth ar dir gwag yng Nghymru** gyda Llywodraeth y DU i brofi'r mecanwaith y cytunwyd arno ar gyfer datganoli cymhwysedd trethi. Mae hyn wedi dangos bod angen sefydlu proses addas i'r diben ar frys er mwyn datganoli rhagor o gymhwysedd trethi.

Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd ac Asesu'r Effaith:

- Drwy ddefnyddio'r data a'r dystiolaeth sydd ar gael, mae economegwyr Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynhyrchu **dadansoddiad economaidd a phapur briffio ar yr argyfwng economaidd sy'n esblygu** sy'n ymwneud â'r pandemig a symud i gysylltiadau masnachu newydd â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau i'r Cabinet ac uwch swyddogion, paratoi dadansoddiadau ac asesiadau pwrpasol a nodir mewn Adroddiad Economaidd Misol mewnol.
- Rydym yn dal wedi ymrwymo i adolygu sut rydym yn asesu effeithiau. Ar gyfer Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21, roeddem wedi cyflwyno Atodiad yn crynhoi effeithiau anghymesur y pandemig. Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021-22, rydym wedi **cyflwyno gwybodaeth am effeithiau cynigion gwario fel rhan o'r prif naratif**. Mae hyn yn cael ei ategu gan **dystiolaeth gryno o effeithiau cyffredinol** y pandemig ar gymdeithas, ochr yn ochr ag astudiaethau achos manylach ar effeithiau penderfyniadau penodol ar wariant, a gyflwynir yn yr Aseiad Effaith Integredig Strategol. **Rydym hefyd wedi profi dulliau newydd o asesu effeithiau'r gyllideb yn well. Mae'r rhain yn cael eu disgrifio isod:**
- Rydym wedi datblygu **model effaith ddosbarthiadol ar gyfer dadansoddi gwariant cyhoeddus** yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar y meysydd gwariant datganoledig mwyaf ac yn rhoi dealltwriaeth lefel uchel ynghylch pa mor flaengar yw gwariant ar y meysydd hyn. Rydym wedi cyhoeddi ein dadansoddiad cychwynnol fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2021-22.
- Rydym wedi comisiynu gwaith i **ddatblygu model peilot i amcangyfrif allyriadau nwyon tŷ gwydr** sy'n gysylltiedig â chynigion gwario 2020-21. Roeddem wedi cyhoeddi crynodeb o'r gwaith hwn sy'n dod i'r amlwg fel rhan o Adroddiad y Prif Economegydd, sy'n rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2021-22. Bydd hyn yn cyflwyno allbynnau'r model ar gyfer cyllidebau lechyd, y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd a chyfyngiadau'r dull gweithredu. Rydym yn bwriadu cyhoeddi allbynnau ychwanegol fel rhan o'r Gyllideb Derfynol.
- Rydym wedi parhau i **weithredu gan 'ganolbwyntio ar y rhywiau'** gyda rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol Llywodraeth Cymru, er mwyn helpu i adnabod a deall yr effeithiau posibl ar grwpiau gwahanol, i wella sut rydym yn blaenoriaethu ac yn dyrannu adnoddau. Wrth fonitro darpariaeth y cynllun peilot, gwelwyd bod hyblygrwydd y cynnig Cyfrif Dysgu Personol yn apelio at ystod ehangach o bobl i ddatblygu sgiliau mewn sectorau lle ceir rhagfarn hysbys ar sail rhyw. Bydd gwerthusiad ffurfiol o'r rhaglen yn dechrau yn 2021.

Ymgysylltu ynghylch Trethi a'r Gyllideb

- Roeddem wedi cynnal **rhith gynhadledd drethi flynyddol** ar 8 Hydref er mwyn helpu i hyrwyddo agenda trethi Cymru. Roedd yr agenda'n cynnwys cyflwyniadau gan sefydliadau allanol fel y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a sesiwn a gynhaliwyd gan Demos ar dulliau i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad ynghylch trethi.
- Roeddem wedi **datblygu a chyhoeddi cyfrifiannell cyfraddau treth incwm Cymru** ar 15 Rhagfyr sy'n dangos sut mae cyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu gwario ar wasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru.
- Rydym wedi bwrw ymlaen â'n cynlluniau i **ddatblygu ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn dylanwadu ar welliannau i brosesau'r gyllideb**. Ym mis Tachwedd, roeddem wedi ailgynnull aelodau Grŵp Cynghori'r Gyllideb ar Gydraddoldeb i drafod a chytuno ar gynnig i ddatblygu aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp. Bydd hwn yn grŵp a fydd yn cael ei gadeirio'n swyddogol i gyflwyno gwelliannau i brosesau'r gyllideb, wedi'i fframio gan Gynllun Gwella'r Gyllideb.
- Roeddem wedi **datblygu gweithgareddau cyfathrebu newydd cyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2021-22 er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gyllideb Ddrafft**, gan geisio cyrraedd cynulleidfaoedd newydd gyda naratif syml ac animeiddiad ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn gwario ei harian.
- Roeddem hefyd wedi **cynhyrchu ffilm fer gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**, a hyrwyddo hyn dros sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ystod yr wythnos cyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2021-22.
- Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, roeddem wedi **cyhoeddi a hyrwyddo amrywiaeth o asedau digidol ar draws Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Cymru a sianeli adrannol i gyfleu negeseuon allweddol ynghylch y Gyllideb mewn ffordd syml ar y diwrnod cyhoeddi. Roedd hyn yn cynnwys animeiddiad a thaflen gyllideb**. Roeddem hefyd wedi datblygu papur briffio technegol a hysbysiad i'r wasg i gefnogi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y cyfryngau.



Er nad ydym wedi sefydlu Grŵp Trosolwg Gwella'r Gyllideb yn ffurfiol fel roeddem wedi'i fwriadu, rydym wedi cael sgysiau ehangach â rhanddeiliaid ynghylch diwygiadau arfaethedig i'r ffordd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys mwy o ffocws a chydweithio i wella proses y gyllideb, i gefnogi ein cynlluniau ehangach i sefydlu trosolwg o welliannau i'r gyllideb (Gweler yr adran 'Ymgysylltu ynghylch Trethi a'r Gyllideb' i gael rhagor o fanylion). Bydd y ffocws hwn yn cyfrannu at ddatblygu a phrofi gwelliannau i brosesau'r gyllideb a sut mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlwg yn sail i flaenoriaethau gwario strategol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys sut mae hyn yn datblygu ein hamcanion cydraddoldeb. Bydd y Cynllun Gwella'r Gyllideb hwn yn rhoi'r fframwaith ar gyfer ffocws y grŵp, gan gyfrannu at y rhaglen waith o 2021 ac ymlaen.

Penderfyniadau Gwario

Gwreiddio'r Ddeddf mewn penderfyniadau ynghylch gwariant

Yr agenda atal

Mae'r paratodau ar gyfer Cyllideb ddrafft 2021-22 wedi cael eu fframio gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i ddiogelu iechyd y cyhoedd, gwasanaethau cyhoeddus a swyddi, adeiladu dyfodol sy'n fwy gwyrdd a newid ar gyfer Cymru decach.

Bydd y paratodau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn cael eu siapia gan y ffordd y bydd y feirws yn esblygu'r flwyddyn nesaf a blaenoriaethau'r Llywodraeth newydd. Bydd angen inni ystyried sut rydym yn cysoni strwythur a phroses y gyllideb yn unol â'r uchelgais hwn.

Adolygu sut gallai strwythur y gyllideb ddangos yn well sut mae amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni, ac unrhyw ddiweddariadau i'r amcanion llesiant yng ngoleuni gweinyddiaeth newydd. Ystyried sut y gallai hyn weithio ochr yn ochr â phenderfyniadau sefydliadol ar lefel y Prif Grŵp Gwariant.

Yn amodol ar ailstrwythuro'r gyllideb, adolygu aliniad y gweithgareddau presennol er mwyn nodi cyfleoedd i gydweithio ymhellach ar draws y sefydliad.

Ceisio ymgorffori dull gweithredu lle caiff cynigion gwario eu datblygu drwy ystyried eu buddion hirdymor, a sicrhau eu bod yn cael eu cydbwysu yn erbyn anghenion tymor byr, eu gallu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, ac y dylanwadwyd arnynt ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid y mae'r gweithgaredd yn effeithio arnynt.

Mae naratif y Gyllideb ddrafft yn canolbwyntio ar y camau rydym yn eu cymryd i sefydlogi ein heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus, sut byddwn yn adeiladu dyfodol sy'n fwy gwyrdd, a newid ar gyfer Cymru sy'n fwy teg a chyfartal, a bydd yn nodi sut mae ystyried y Ddeddf wedi arwain y penderfyniadau hyn.

Yng nghyd-destun gweinyddiaeth newydd, adolygu a diweddarau ein hamcanion llesiant a pharhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch cyflwyno'r wybodaeth hon.

Yn amodol ar y weinyddiaeth newydd, adolygu sut gallwn fesur cynnydd ein gweithgareddau o ran cyflawni'r amcan(ion) sy'n cyd-fynd â nhw.

Mae'r camau rydym wedi'u cymryd ac rydym yn dal i'w cymryd, yn ystod 2020-21, i ymateb i'r pandemig yn 2020-21 wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar atal niwed i'r mwyaf difreintiedig ac atal effeithiau negyddol ehangach ar bobl Cymru ac ar yr economi ehangach.

Parhau i adolygu defnyddio'r diffiniad gwaith o atal fel teclyn i gefnogi newid mewn cyllido gweithgareddau ataliol; ac ystyried y ffordd orau o gefnogi defnyddio'r diffiniad yn ehangach gyda gweithgareddau..


Yn amodol ar y weinyddiaeth newydd adolygu rôl y diffiniad a'r dull o atal sy'n gysylltiedig â datblygiadau i'r proffesiwn polisi.

Yn amodol ar ganfyddiadau o waith blaenorol, edrych ar y ffordd orau o gefnogi dull gweithredu cyllideb gyfan tuag at weithgareddau ataliol ac ystyried gwerthusiad posibl i brofi ymarferoldeb ac effaith symud gwariant tuag at weithgareddau ataliol, a'r amodau sydd eu hangen i wneud hyn yn effeithiol ar draws y sefydliad cyfan.

Yn amodol ar y weinyddiaeth newydd, a setliadau cyllideb cyffredinol, treialu dull gweithredu i ddyrannu cyllid penodol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gweithgareddau ataliol, gan nodi'r arferion gorau i gyfrannu at gynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Gwaith cychwynnol i archwilio model Bond Effaith Gymdeithasol. Cynhaliwyd trafodaethau cynnar i ganfod pa awdurdodau lleol sydd â diddordeb mewn cymryd rhan, a datblygu opsiynau caffael i symud y gwaith rhagddo'n ffurfiol.


Datblygu'r gwaith ar ddefnyddio model Bond Effaith Gymdeithasol – model buddsoddi cyhoeddus/preifat ar sail canlyniadau i fynd i'r afael â materion cymdeithasol – drwy gydweithio â'r sector cymdeithasol a'r gymuned ariannol.




Penderfyniadau Gwario

Ymateb i newid yn yr hinsawdd a gostyngiad mewn bioamrywiaeth


Cynllunio ariannol tymor hirach








Dadansoddiad ariannol ac asesu'r effaith

Asesu Effaith penderfyniadau ynghylch y Gyllideb










Ymgysylltu Yngylch Trethi ar Gyllideb



Allwedd

BEL – Llinell Wariant yn y Gyllideb

Deddf LICD – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

MEG – Prif Grŵp Gwariant

UKCCC – Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd

WIIP – Y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

